**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**7/11/2023**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2964 Sylwadau'r Cadeirydd:** Wrth groesawu pawb, cyfeiriodd Euros Roberts at lwyddiant Menter Cymunedol Llanuwchllyn i brynu'r Eagles a dymunodd yn dda iawn i'r Rheolwyr newydd. Diolchodd yn gynnes i Meirion ac Eleri Pugh am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned yn Llanuwchllyn ar hyd y blynyddoedd.
Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant arbennig Eisteddfod Powys a gynhaliwyd yn Y Bala, ac at Eisteddfodau Clybiau Ffermwyr Ifanc.
Nodwyd pryder Llinos Edwards na fydd yn gallu camu i sedd y Cadeirydd yn y flwyddyn nesaf oherwydd gofalon teuluol. Bydd y Cyngor yn ystyried y swydd o is-Gadeirydd yng nghyfarfod Rhagfyr.

**2965 Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards

**2966 Datganiadau o fuddiant** - dim

**2967 Cofnodion cyfarfod 3/10/23-** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**2968 Materion y Clerc / materion o'r Cofnodion**

i. Openreach – Mae'r cwmni yn edrych mewn i broblem cyfeiriadau sydd ar goll o restr Openreach. Derbyniwyd 100% o ymatebion erbyn hyn a diolchwyd i bawb am eu hymdrech i sicrhau hyn. Atebwyd pryder trigolion am offer galw mewn argyfwng.
ii. TG y Neuadd – adroddodd Huw Antur fod y gwaith yn nwylo Cwmni MAD o Sir Fon. Yn anffodus, methwyd a chael dim byd i weithio ar y cyfarpar ar gyfer y cyfarfod hwn o 'r Cyngor.
iii. ANPR – adroddodd y Cadeirydd am y cyfarfod gyda'r Rhingyll Barlow ac Iwan Roberts ar 16/10/23.

**2969 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a ddywedodd fod swyddogion yn trafod diogelwch o dan yr hen bont rheilffordd.

Mae swyddogion Cyngor Gwynedd yn gwneud ymholiadau yng nghylch cyfrifoldeb pwy yw'r ffens sydd wedi pydru rhwng yr Eglwys a'r bont.

Mae Adra wedi asesu'r tyfiant ym Maesypandy ond nid yw wedi ei docio hyd yn hyn.

Mae Adran y Cefnffyrdd wedi trefnu tocio'r gwair a'r tyfiant ar fin y ffordd ac wedi cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i drefnu torri'r brigau sy'n amharu ar y gwelededd wrth Penffridd a Rhiw Swch ym Mheniel.

Yn dilyn derbyn llawer o gwynion am amserlen newydd y T3, mae'r Cynghorydd wedi bod yn cysylltu gyda'r Adran Addysg a gyda Mabon ap Gwynfor am y trafferthion yn deillio o hyn.

**CYTUNWYD** i anfon pryderon y Cyngor am yr amserlen newydd at TrawsCymru, gyda chopi i'r Cynghorydd a'r Aelod Seneddol.

Mae'r Cynghorydd wedi cysylltu gyda swyddogion parthed ymateb i gyfarfod diweddar gydag Elusen Parch. Maurice Vaughan. **CYTUNWYD** fod y Cyngor hefyd yn anfon er mwyn ceisio gyrru'r mater yn ei flaen.

Mae dail ar lawr angen eu 'sgubo; dywedodd Alwyn E Jones y byddai'n rhoi gwybod i breswylwyr pe byddai'r Cynghorydd yn gallu trefnu i hyn gael ei wneud.

**2970** **Un Llais Cymru** – derbyniwyd sleidiau a manylion hyfforddiant o gyfarfod ardal Meirionnydd.

**2971 Adroddiadau Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu: Derbyniwyd gwybodaeth fod ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar y Cynllun Datblygu wedi ei ohirio tan y flwyddyn newydd. Bydd y Grŵp yn ystyried ymuno gydag un o sesiynau hyfforddiant Cymorth Cynllunio Cymru.
2. Mynwentydd: Diolchwyd i Sion Jones am wneud llawer o waith clirio torchau. **CYTUNWYD** i chwilio o'r newydd am gontractwyr i wneud y gwaith symud cyrbiau. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn ceisio cael deunydd i lenwi'r twll yn y maes parcio.
3. Bioamrywiaeth: Adroddodd Rhodri Prys Jones am brosiect Y Tyrpeg i harddu'r ardal o gwmpas y fynedfa i'r pentref, a'r cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri ar Brosiect Coedlan y Fynwent a hau blodau gwyllt ar y groesffordd.
4. Nadolig: Bydd Sion Corn a chanu Carolau yn digwydd ar 18 ac 19 o Ragfyr.
5. Asedau: mae angen staen at yr hysbysfyrddau pan fydd y tywydd yn caniatáu. Disgwylir i'r gwaith ar giât Llwybr Cei a chlicied Porth y Fynwent gael eu cwblhau.
6. Cyllid: Disgwylir i'r is-bwyllgorau gyflwyno eu hanghenion cyllid erbyn cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor ar 4/12/23

**2972 Ystyried Materion Ariannol**

Derbyniwyd adroddiad manwl o'r sefyllfa ariannol a chytunwyd i'r taliadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Aelodaeth ICO | 35.00 |
| Nwyddau Toiledau CCF | 21.55 |
| Trwsio brys yn y Toiledau | 155.79 |
| Partneriaeth Penllyn – Llwybrau | £388.67* *Gweler Cofnod 2974* |
| Cyflogau /cytundebau/HMRC | |

Cytunwyd i dalu aelodaeth SLCC, efallai yn rhannu gyda Llangywer.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am Lwfansau Cynghorwyr a Threuliau gweithio o adref.

**2973** **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Derbyniwyd gwybodaeth fod y Menter yn agor trafodaethau gyda swyddogion yr Eglwys yng Nghymru parthed dyfodol Eglwys Deiniol Sant.

**2974** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Cynhaliwyd Gŵyl Fwyd lwyddiannus iawn diwrnod y Ffair. Mae gweithgareddau yn parhau yng Nghanolfan Bro Tegid, ac mae'n parhau yn fwriad i wella strwythur y Ganolfan. Mae sgyrsiau yn digwydd ar godi papur wythnosol i'r fro.

Trafodwyd cais Partneriaeth Penllyn i dalu £388.67 am y gwaith ar y llwybrau eleni gan nad yw'r swm a dderbynnir gan Gyngor Gwynedd yn ddigonol erbyn hyn. **Cytunwyd** i dalu er nad yw'n eitem yn nghyllideb eleni. Er mwyn cyllidebu ar gyfer y flwyddyn nesaf, gofynnwyd i Alwyn E Jones , Dewi Wyn Jones a Huw Antur ystyried pa rai o lwybrau'r gymuned sydd angen eu torri a pha mor aml.

**2975** **Cynllunio:** Manylion Ychwanegol am gais **NP5/71/53D** Tŷ'n Llechwedd: Diolchwyd i Barc Cenedlaethol Eryri am anfon yr wybodaeth ychwanegol ymlaen at y Cyngor. **Cytunwyd** fod y sylwadau sydd eisoes wedi eu hanfon parthed cais **NP5/71/53D** yn parhau i adlewyrch barn y Cyngor ar y cais.

O ran diddordeb, mewn achos tebyg holwyd a fyddai angen gwneud cais o'r newydd am ddefnydd gwahanol pe byddai'r defnydd presennol – dyweder, "granny flat" – yn dod i ben? Hynny yw, pa ddosbarth cynllunio a fyddai'n bodoli ar ôl i adeilad a ganiatawyd at ddiben arbennig megis "granny flat" pe byddai'r angen am y diben gwreiddiol yn dod i ben?

**2976** **Gohebiaeth:** Derbyniwyd

i. Cyngor Gwynedd: Cau ffordd wrth Wern Goch am ddim mwy na 5 diwrnod 13/11/23
ii. Cyngor Gwynedd: Cau ffordd wrth Werddon Fach am ddim mwy na 5 diwrnod 15/11/23
iii. Llywodraeth Cymru: Nodwyd derbyn Adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector Cynghorau Cymuned a thref.

**2977** **Materion lleol y Cynghorwyr:** Holwyd am y cwpwrdd llyfrau yn y Neuadd sy'n eiddo i'r Cyngor. Cytunodd Beryl Hughes Griffiths i holi ymhellach sut y gellir ehangu ei ddefnydd.

**2978** **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/12/23 yn y Neuadd Bentref.